## CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID

## DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 RHAN 1, ADRAN 6

## ADRODDIAD AR DDYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTH ECOSYSTEMAU 2024

### CYFLWYNIAD

Mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1, Adran 6 cyhoeddodd y Cyngor Cymuned ei adroddiad cyntaf ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerth Ecosystemau ym mis Mai 2024.

Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn gwasanaeth clercio a datblygu prosiectau gan Partneriaeth Ogwen. Fel rhan o'r prosiect Dyffryn Gwyrdd/Gwyrdd Ni, mae'r Bartneriaeth yn darparu prosiectau sydd yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth a chydnerth ecosystemau

Amlinella'r adroddiad sut mae Cyngor Cymuned Llanllechid yn cynnig gwasanaethau drwy Partneriaeth Ogwen , yn y gymuned a chydweithio â phartneriaid ar wasanaethau a gweithgareddau sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am dorri tyfiant llwybrau cyhoeddus o fewn y plwyf
- Cyllid – grantiau ar gael ar gyfer prosiectau o fewn y plwyf
- Mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd am trefniadau torri gwair
- Ymrwymiad i weithio ag Adran Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd

Rydym yn:

- hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyedd a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.
-

Rydym yn gwasanaethu plwyf Llanllechid sydd gyda 682 etholwr. Y praesept ar gyfer 2025-26 yw £17,218.66.

**CAMAU GWEITHREDU**

| | | | **Monitro** |
|---|---|---|---|
| 1. | Cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth yn ein prosesau penderfynu a chaffael | Rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill megis ceisiadau i dorri a thocio coed mewn ardaloedd yn y gymuned a warchodir gan Orchmynion Gwarchod Coed | Cyngor llawn |
| 2. | Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Defnyddio gwefan y Cyngor a cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Partneriaeth Ogwen | Cyngor llawn |
| 3. | Diogelu'r prif rywogaethau a chynefinoedd Adfer a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Blodau gwyllt wedi'i blannu yn Talybont<br><br>Cais i Gyngor Gwynedd i beidio defnyddio chwyn laddwr o fewn y plwyf | Cyngor llawn |
| 4. | Mynd i'r afael ag elfennau negyddol | Mae'r Cyngor yn weithgar yn tynnu sylw Cyngor Gwynedd a sefydliadau eraill pan fydd problemau fel Llysiau'r Dial (*Japanese Knotwood*) angen sylw | Cyngor llawn. |
| 5. | Defnyddio gwella a rhannu tystiolaeth | Cydweithio gyda Cynghorau eraill Dyffryn Ogwen I rannu gwellianau, ac i adrodd am dor rheolaeth / drosedd / weithred sydd yn effeithio yn andwyol ar fioamrywiaeth y plwy | Cyngor llawn. |
| 6. | Cefnogi capasiti ac/neu sefydliadau | Cydweithio â Chyngor | Cyngor llawn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | eraill | Gwynedd, gan gynnwys yr Adran Bioamrywiaeth<br><br>Cefnogi Partneriaeth Ogwen gyda'r prosiectau lleol. | |

**AROLWG O DDYLETSWYDD ADRAN 6**

**Beth sy'n gweithio'n dda?**
Megis dechrau a monitor yn unig yr ydym eleni.

**Beth fyddwn yn ei wneud?**
**Parhau i weithio'n agos gyda Partneriaeth Ogwen a'r prosiect GwyrddNi.**
Parhau gweithio â Chyngor Gwynedd a'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.
Parhau annog a chefnogi gwaith da a weithreda yn y gymuned.

**Sut a phryd caiff Dyletswydd Adran 6 ei monitro ac adolygu Cynllun Adran 6?**

Caiff y Ddyletswydd ei monitro yn flynyddol gan y Cyngor Cymuned.

**Mabwysiadwyd: Medi 2025**

**Arwyddwyd: Cyngor Cymuned Llanllechid**